# Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014

**2014 dccc 3**

## 5 Gwaredu ceffylau sydd wedi eu cadw

(1) Yn ddarostyngedig i adran 7, mae'r adran hon yn gymwys, ar ôl i awdurdod lleol ymafael mewn ceffyl o dan adran 2—

(a) os nad yw perchennog y ceffyl na pherson sy'n gweithredu ar ran perchennog y ceffyl wedi cysylltu â'r awdurdod lleol cyn pen y cyfnod o 7 niwrnod gan ddechrau gyda'r diwrnod perthnasol, neu

(b) os yw perchennog y ceffyl neu berson sy'n gweithredu ar ran perchennog y ceffyl wedi cysylltu â'r awdurdod lleol cyn pen y cyfnod hwnnw, er iddo gael hysbysiad o dan is-adran (3) o adran 4, wedi methu â chydymffurfio ag is-adran (1) o'r adran honno cyn pen y cyfnod o 7 niwrnod gan ddechrau gyda'r diwrnod pan gafwyd yr hysbysiad.

(2) Ystyr y "diwrnod perthnasol"—

(a) os yw'r awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad o dan adran 3(4), yw'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad hwnnw, a

(b) fel arall, y dyddiad y mae'r awdurdod lleol yn gosod yr hysbysiad o dan adran 3(1).

(3) Caiff yr awdurdod lleol werthu'r ceffyl neu ei waredu fel arall (gan gynnwys drwy drefnu i'w ddifa).

(4) Pan nad oes unrhyw enillion yn codi o'r gwarediad, neu pan fo swm y costau a dynnir mewn cysylltiad â'r gwarediad yn fwy na swm y cyfryw enillion, mae perchennog y ceffyl yn atebol i dalu i'r awdurdod lleol swm unrhyw gostau a dynnwyd mewn cysylltiad â'r gwarediad, neu'r swm hwnnw sydd dros ben.

(5) Pan fo swm unrhyw enillion sy'n codi o'r gwarediad yn fwy na swm y costau a dynnwyd mewn cysylltiad â'r gwarediad, mae'r awdurdod lleol yn atebol i dalu'r swm sydd dros ben i berchennog y ceffyl.

(6) Ond nid yw is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol talu unrhyw swm i berson os yw'r awdurdod lleol wedi talu'r swm hwnnw yn flaenorol i berson yr oedd yn credu'n rhesymol mai hwnnw oedd perchennog y ceffyl.

(7) Rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad i'r perchennog sy'n datgan y swm y mae'r awdurdod lleol o'r farn bod y perchennog yn atebol i'w dalu o dan is-adran (4) neu y mae'r awdurdod lleol yn atebol i'w dalu o dan is-adran (5) ac yn cynnwys esboniad o—

(a) sut y pennwyd y swm hwnnw, a

(b) yr hawl i gyfeirio anghydfod i'w ddatrys gan Weinidogion Cymru a sut i arfer yr hawl honno.